Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
SirDdinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

20/02/2025

Parthed: Cylchlythyr

Annwyl Rieni,

A dyma ni ar ddiwedd hanner tymor arall! Mae'r flwyddyn academaidd yma yn hedfan heibio. Dyma i chi ychydig o wybodaeth am beth sydd i ddigwydd yn dilyn y gwyliau hanner tymor.

Noson Rieni - Llawer o ddiolch i'r rhai a fynychodd noson rieni yn ddiweddar. Teimlwn fel ysgol bod y nosweithiau wedi bod yn llwyddiannus. Hoffwn gasglu eich barn chi am y trefniadau. Cwblhewch yr holiadur byr gan ddilyn y linc yma: <https://forms.office.com/e/hHnrE19ULW?origin=lprLink>

Dydd Gŵyl Dewi Sant - Eleni, bydd Dydd Gŵyl Dewi Sant yn cael ei gynnal yn ystod y gwyliau hanner tymor. Felly, fel ysgol rydym wedi penderfynu caiff y dysgwyr ddod i'r ysgol ar **Ddydd Llun y 3ydd o Fawrth** yn gwisgo coch, gwyn neu wyrdd neu wisg draddodiadol Gymreig. Byddwn yn dathlu ein Cymreictod yn ystod y diwrnod hwn gan ymgymryd mewn gweithgareddau i ddathlu Cymru.

Diwrnod y Llyfr - Byddwn yn dathlu **Diwrnod y Llyfr ar Ddydd Iau'r 6ed o Fawrth, 2025**. Caiff y dysgwyr ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad allan o lyfr neu mewn pyjamas. Gofynnwn yn garedig i'r dysgwyr ddod a'u hoff lyfr i'r ysgol hefyd er mwyn iddynt gael cyfle i'w ddarllen yn ystod y dydd. Hefyd bydd y Cyngor Ysgol yn rhoi cyfle i ddysgwyr brynu llyfr am 50c o'r stondin llyfrau ail law. Mwy o fanylion i ddilyn.

Eisteddfod yr Urdd - Mae'r dysgwyr wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar, sydd yn cael ei gynnal yn **Ysgol y Llys ar Ddydd Sadwrn, Mawrth y 15fed, 2025**. Bydd y rhagbrofion yn cychwyn am 9 o'r gloch y bore a'r sesiwn prynhawn ar gyfer y llwyfan yn cychwyn am 1 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at weld pawb sydd yn cystadlu yn cynrychioli Ysgol y Llys ar y diwrnod. Llawer o ddiolch am eich cefnogaeth.

Prosiect Taith – Yn ddiweddar, croesawom 4 aelod o staff o Wlad yr Iâ i Ysgol y Llys. Yng nghanol mis Mawrth, bydd 4 aelod o staff, Mrs Robertshaw, Mrs Rose, Mrs McCabe a Mrs Mason, yn mynd draw i Wlad yr Iâ i weld yr holl brofiadau mae dysgwyr yno yn ei gael. Bydd mwy o fanylion i'w ddilyn yn dilyn y gwyliau.

Eisteddfod Offerynnol - Hoffwn longyfarch Megan o flwyddyn 6 am ddod yn gyntaf wrth chwarae'r piano yn yr Eisteddfod Offerynnol yr Urdd Sir Ddinbych yn ddiweddar. Rydym yn hynod o falch ynddi a dymunwn yn dda iddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol lawr yn Abertawe ym mis Mai.

Rhiant Llywodraethwr - Yn dilyn y broses o ethol rhiant llywodraethwr, rydym yn falch o gyhoeddi mai Miss Catherine Gilmore fydd yn ymuno ein Corff Llywodraethol. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi.

Chwaraeon yr Urdd - Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm rygbi yn nhwrnamaint rygbi'r Urdd yn ddiweddar. Cynrychiolodd y merched Bl.5 a 6 Ysgol y Llys yn arbennig gan golli yn y chwarteri a thîm cymysg Bl.3 a 4 yn colli yn y ffeinal. Rydym yn falch iawn ohonyn nhw i gyd. Llawer o ddiolch i staff a rhieni am helpu.

Mwynhewch y gwyliau hanner tymor ac edrychwn ymlaen i weld pawb yn ô l yn yr ysgol ar **Ddydd Llun y 3ydd o Fawrth, 2025**.

Yn Gywir,

Mr Rhys Griffith

Mr Rhys Griffith a Staff Ysgol y Llys
Pennaeth